# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cydweithfa Cartrefi Cymru Caerdydd a'r Fro**

**Cartrefi Cymru**
**Uned 2 Parc Busnes Waterton Cross**
**South Road**
**Pen-y-bont ar Ogwr**
**CF31 3UL**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

18/09/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio’r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â’i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Cydweithfa Cartrefi Cymru Caerdydd a'r Fro

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cymorth Cartref |
| Darparwr Cofrestredig | Cydweithfa Cartrefi Cymru Cyf |
| Lleoedd cofrestredig | 0 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 02 Rhagfyr 2021 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu ‘Cynnig Rhagweithiol’ ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn fodlon iawn ar y gofal y maent yn ei gael ac mae ganddynt gydberthnasau da iawn â'r staff gofal sy'n eu cefnogi. Mae'r cynlluniau gofal personol yn fanwl, yn gadarn a chânt eu hadolygu'n rheolaidd i'w cadw'n gywir. Caiff atgyfeiriadau eu gwneud at weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn ddi-oed ac mae'r staff gofal yn dogfennu unrhyw newidiadau i anghenion y bobl. Caiff meddyginiaeth ei storio'n gywir a'i rhoi'n ddiogel. Caiff y bobl eu cefnogi i fod mor annibynnol ag y gallant ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau o'u dewis. Mae gan y staff gofal ddealltwriaeth dda o anghenion y bobl y maent yn gofalu amdanynt, ac maent yn gwneud hynny mewn modd caredig a chyfeillgar. Caiff y staff gofal eu hyfforddi'n dda ac maent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi wrth weithio yn y gwasanaeth. Mae nifer bach o staff gofal asiantaeth yn gweithio yn y gwasanaeth ar hyn o bryd. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn unol â'r gofynion rheoliadol a chaiff gwaith monitro cadarn ei gynnal yn rheolaidd er mwyn sicrhau ansawdd. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith ac mae cwynion a gyflwynir i'r gwasanaeth yn cael eu cymryd o ddifrif. Caiff atgyfeiriadau diogelu eu gwneud yn briodol a chânt eu monitro gan yr uwch-staff. Mae'r trefniadau ar gyfer recriwtio staff gofal yn ddiogel ac mae'r ffeiliau personél yn cynnwys y dogfennau gofynnol.

## Llesiant

Caiff y bobl eu trin ag urddas a pharch. Rhoddir gwybodaeth i'r bobl am y gwasanaeth y gallant ddisgwyl ei dderbyn a chaiff cwynion a gyflwynir i'r gwasanaeth eu cymryd o ddifrif. Mae gan y staff gofal gydberthnasau cadarnhaol â'r bobl y maent yn eu cefnogi ac maent yn trin y bobl fel unigolion. Mae'r staff gofal yn hyrwyddo annibyniaeth ac yn trin y bobl â charedigrwydd a pharch. Mae'r bobl yn fodlon ar y gofal y maent yn ei gael ac yn siarad yn gadarnhaol am y staff gofal sy'n eu cefnogi. Mae'r bobl yn mynd i'r gymuned yn rheolaidd ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol o'u dewis. Mae'r staff gofal yn hapus yn gweithio yn y gwasanaeth ac yn teimlo bod y bobl yn cael gofal da iawn. Dywedodd un aelod o'r staff wrthym, "*We do our very best to ensure people have good lives".* Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymgysylltu â'r bobl yn ystod ymweliadau monitro ac yn sicrhau y gofynnir am farn y bobl fel rhan o'r prosesau sicrhau ansawdd.

Mae'r bobl yn cael y gofal cywir yn ddi-oed. Mae lefelau staffio'r staff gofal yn dda ac yn sicrhau nad yw'r bobl yn gorfod aros i gael y gofal sydd ei angen arnynt. Mae tîm cyson o staff, a defnyddir nifer bach o staff gofal asiantaeth hefyd, tra bod trefniadau i recriwtio staff gofal yn mynd rhagddynt. Mae'r staff gofal yn cael hyfforddiant priodol ar gyfer y rolau y maent yn ymgymryd â nhw ac maent yn teimlo eu bod wedi'u paratoi ac yn cael eu cefnogi'n dda i ymgymryd â'u rolau. Mae'r cynlluniau gofal personol yn cynnwys gwybodaeth gywir a chyfredol sy'n amlinellu anghenion y bobl a sut y dylai'r staff gofal eu cefnogi. Mae dogfennaeth bellach ar gael lle y bo angen a chaiff yr holl ddogfennaeth ei hadolygu'n rheolaidd. Mae'r arferion meddyginiaeth yn ddiogel a rhoddir meddyginiaeth yn unol â'r polisïau. Mae'r bobl yn mynd i apwyntiadau iechyd pan fo angen ac mae'r gwasanaeth yn gweithio'n agos gyda gweithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol.

Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag camdriniaeth a niwed. Mae gan Gydweithfa Cartrefi Cymru Caerdydd a'r Fro bolisi diogelu cadarn ar waith ac mae pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant ar ddiogelu oedolion sy'n wynebu risg o gael eu cam-drin. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod y gwasanaeth yn gweithredu'n ddiogel a chaiff atgyfeiriadau diogelu eu gwneud at yr awdurdod lleol lle y bo'n briodol. Caiff gwybodaeth fel gwybodaeth am ddamweiniau, digwyddiadau a chwynion ei monitro'n agos. Mae'r trefniadau ar gyfer recriwtio staff yn ddiogel ac yn gadarn a chaiff gwiriadau cyn cyflogi eu cwblhau cyn i aelodau o staff ddechrau gweithio. Yn ogystal, mae system ar waith i sicrhau y caiff gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) eu hadnewyddu'n rheolaidd.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael y gofal cywir ar yr adeg gywir. Mae gan y staff gofal ddealltwriaeth dda o anghenion y bobl y maent yn gofalu amdanynt, ac maent yn gallu rhagweld anghenion y bobl na allant wneud hynny drostynt eu hunain. Mae'r bobl yn cael cymorth gan grŵp o staff sefydlog a chyson sydd wedi eu galluogi i feithrin cydberthnasau da. Mae parhad y staff gofal yn bwysig am ei fod yn sicrhau bod y bobl yn cael eu gofal yn y ffordd a ffefrir ganddynt. Defnyddir nifer bach o staff gofal asiantaeth yn y gwasanaeth, ond cawsom sicrwydd bod aelodau cyfarwydd o staff yn cael eu defnyddio lle y bo'n bosibl a bod y darparwr wrthi'n ceisio recriwtio staff gofal. Mae'r cynlluniau personol yn amlinellu anghenion y bobl yn glir a sut y dylid eu diwallu, ac maent yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol ac asesiadau risg lle y bo angen. Caiff y cynlluniau personol eu hadolygu'n rheolaidd a'u diweddaru pan fo angen i sicrhau eu bod yn gywir o hyd. Mae'r dogfennau hyn yn bwysig am eu bod yn rhoi arweiniad i'r staff gofal o ran sut i ofalu am y bobl yn gywir. Caiff atgyfeiriadau eu gwneud at weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol allanol pan fo angen. Mae'r staff gofal wedi meithrin cydberthnasau gwaith da â gweithwyr proffesiynol ac yn gallu trafod unrhyw bryderon a newidiadau i anghenion y bobl. Mae'r prosesau meddyginiaeth yn ddiogel ac yn gadarn. Caiff meddyginiaeth ei storio a'i rhoi'n ddiogel. Caiff siartiau Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth eu cwblhau'n gywir ac maent yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol.

Mae gan y bobl ddewis a rheolaeth dros eu bywydau. Mae gan y bobl eu cynllun gweithgareddau dyddiol eu hunain ac maent yn gwneud y pethau sy'n bwysig iddynt. Mae'r staff gofal yn helpu'r bobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau o'u dewis ac i ymweld â'u ffrindiau a'u teulu pan fyddant am wneud hynny. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn fodlon ar y gofal y maent yn ei gael a dywedodd un unigolyn, "*I like all the staff very much*". Mae'r staff gofal yn annog y bobl i fod mor annibynnol â phosibl. Gwelsom y staff gofal yn siarad â'r bobl mewn ffordd gyfeillgar ac yn tynnu coes ac yn chwerthin. Gwelsom enghreifftiau o ryngweithio cadarnhaol lle rhoddodd y staff gofal y sicrwydd yr oedd ei angen ar y bobl i wneud pethau drostynt eu hunain. Mae'r bobl yn ymddiried yn y staff gofal sy'n eu cefnogi a dywedodd un unigolyn wrthym "*Everyone is very nice to me*". Lle y bo'n bosibl, caiff y bobl a/neu eu cynrychiolwyr eu cynnwys yn y prosesau cynllunio gofal er mwyn gwneud yn siŵr y caiff eu safbwyntiau eu nodi. Mae'r cynlluniau personol yn cynnwys manylion am hoff bethau a chas bethau'r bobl a'u dewisiadau o ran sut y caiff gofal ei ddarparu.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae’r bobl yn cael budd o’r arweinyddiaeth a'r rheolaeth sydd ar waith. Mae Unigolyn Cyfrifol Cydweithfa Cartrefi Cymru Caerdydd a'r Fro yn goruchwylio'r gwasanaeth yn dda ac mae'r rheolwr wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, sef rheoleiddiwr y gweithlu. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith ar gyfer gweithredu'r gwasanaeth a rhoddir gwybodaeth fanwl i'r bobl am y gwasanaeth y gallant ddisgwyl ei gael. Caiff datganiad o ddiben y darparwr ei adolygu'n rheolaidd a'i ddiweddaru yn ôl yr angen. Caiff cwynion i'r gwasanaeth eu cymryd o ddifrif, ymdrinnir â nhw'n briodol a chânt eu monitro'n agos. Mae'r darparwr hefyd yn chwilio am ffyrdd newydd o sicrhau y caiff unrhyw ganmoliaeth a gaiff y gwasanaeth ei nodi, ei chofnodi a'i rhannu â'r staff gofal. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn unol â'r gofynion rheoliadol ac yn ymgysylltu â'r staff gofal a'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae trefniadau llywodraethu a sicrhau ansawdd cadarn ar waith sy'n dangos bod y darparwr yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd a gwneud gwelliannau pan fo angen. Caiff atgyfeiriadau diogelu eu gwneud at dîm diogelu'r Awdurdod Lleol pan fo angen, ac wedyn eu storio'n ganolog gan gofnodi'r canlyniadau. Mae hyn yn ymarfer da gan ei fod yn galluogi'r darparwr i fonitro atgyfeiriadau er mwyn nodi themâu, tueddiadau a phatrymau cam-drin ac yna gymryd camau gweithredu priodol.

Mae'r bobl yn cael cymorth gan staff sy'n cael eu cefnogi'n dda ac yn cael eu recriwtio'n ddiogel. Mae'r staff gofal yn mynychu cyrsiau hyfforddiant sy'n briodol ar gyfer y rolau y maent yn ymgymryd â nhw ac yn teimlo eu bod yn meddu ar y sgiliau priodol i ymgymryd â'u swyddi. Mae pob aelod o'r staff gofal yn cael sesiynau goruchwylio ffurfiol yn unol â'r gofynion rheoliadol ond gallant hefyd siarad â'r rheolwyr fel y bo angen. Mae prosesau goruchwylio yn bwysig gan eu bod yn cynnig cyfle i'r staff gofal drafod unrhyw faterion neu anghenion ymarfer mewn lleoliad ffurfiol ac i'r materion neu'r anghenion hynny gael eu cofnodi. Dywedodd y staff gofal y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn hapus yn gweithio yn y gwasanaeth a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda. Dywedodd un person wrthym, “*The manager goes over and above*” a dywedodd person arall, “*I love this company and wouldn’t want to work anywhere else”.* Gwnaethom edrych ar ddetholiad o ffeiliau personél y staff a gwelsom eu bod yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol. Gofynnir am wiriadau cyn cyflogi, gan gynnwys geirdaon a thystysgrifau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) cyn i aelodau o staff ddechrau gweithio. Mae'r gwiriadau hyn yn bwysig gan eu bod yn cadarnhau a yw unigolyn yn addas i weithio gyda phobl agored i niwed.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 23/10/2023